CYNGOR CYMDEITHAS LLANGOEDMOR COMMUNITY COUNCIL

**Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Llangoedmor a gynhaliwyd yn Neuadd y Cwrwgl, Llechryd nos Lun 4 Mawrth 2019**

Presennol: Cyngr: Ken Symmons, Hywel Davies, Steve Kings, Mrs Laura Holder, Mrs Nicky Redmond

CS Clive Davies

Clerc

**1. Croeso ac Ymddiheuriadau**
Roedd ymddiheuriadau wedi dod oddi wrth y Cyngr I Davies a Mrs A Edwards

Yn absenoldeb y Cadeirydd, cadeiriwyd y cyfarfod gan yr Is-gadeirydd, y Cyng K Symmons.

**2. Datgelu Buddiannau Personol**
Dim.

**3. Materion Personol**
Dim.

**4. Ceisiadau Cynllunio**
A190091 Tŷ Ni, Tŷ-fri, Llechryd
Symud carafan preswyl oddi yno a chodi annedd fforddiadwy.
Cefnogwyd y cais gan y Cyngor (1 yn ymatal).

A190078 Terry Edwards, Dŵr Cymru Welsh Water
Gwaith Trin Carthion Llechryd, codi ffens diogelwch.
Cefnogwyd y cais gan y Cyngor.

*Cynlluniau Lle*
*Anghenion tai lleol a safleoedd posibl.*
Byddai'r CS yn rhoi cyngor ar ffordd bosibl ymlaen.

**6. Adroddiad y Cynghorydd Sir**
Nodwyd yr ymateb gan Gymdeithas Tai Wales and West, sef bod y Gymdeithas yn gweithio gydag Ysgol Llechryd ynglŷn â gwaith trwsio.

Dywedodd y Gymdeithas hefyd y byddai'r llwybr i ardd chwarae Glannant, o ganlyniad i arolwg o drigolion yr ystâd, yn cael ei ledu a'i darmacio gan fynd i ffwrdd â'r border pren canolog. Byddai hefyd yn gwneud y fynedfa drwy'r gât yn fwy cyfleus i bobl mewn cadair olwyn, cadeiriau gwthio a beiciau. Byddai'r bin yn cael ei symud oddi yno gan ei fod yn cael ei ddefnyddio fel bin ar gyfer baw cŵn a'r trigolion yn gwrthwynebu hynny.

*Niwed i'r Llain Borfa – Preseli View*
Dim newyddion ar gael.

Dywedodd y CS Clive Davies fod y cais am amlosgfa anifeiliaid anwes yn yr hen gapel i gael ei gyfeirio at y pwyllgor cynllunio. Roedd yn hyrwyddo lleihau carbon yng Ngheredigion ac yn gofyn pam nad oedd mannau gwefrio ceir trydan wedi eu gosod eto er bod yr arian ar gael. Roedd wedi nodi'r pryder am ddarpariaeth 5G. Cefnogodd y Cyngor ei lobio dros gynnwys Llangoedmor/Llechryd yn y cynigion Teithio Llesol. Awgrymodd y gallai'r ysgol ddylunio posteri ar atal baw cŵn i'w defnyddio yn y pentref.

Dywedwyd wrtho y byddai cronfa i godi arian at Eisteddfod 2020 yn eitem ar agenda mis Ebrill.

*Diolchwyd i'r CS Clive Davies am roi o'i amser, ac yna gadawodd y cyfarfod.*

**7. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**
Cynigiodd y Cyng S Kings y dylid derbyn cofnodion 4.2.19 fel cofnod cywir. Eiliwyd gan y Cyng H Davies. Cytunwyd.

**8. Materion yn Codi**
Dim.

**9. Cyllid a Gweinyddu**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 4.03.19 | HMRC | | 5.20 | |
| | S E Davies | Swyddfa yn y cartref 25, postio 6.96 | 31.96 | |
| | SE Davies | Cymhwyso cyflog oherwydd codiad | 21.34 | |
| | Mr E Rees | Bloc toiledau, biniau ac ati | 276.00 | |
| | CommuniCorp | Clerks and Councils Direct | 12.00 | |
| | Comisiynydd Gwybodaeth | Diogelu data | 40.00 | |
| | Un Llais Cymru | Tâl Aelodaeth | 194.00 | |
| | Urban Leisure Ltd | Arwyneb lle chwarae | 4,464.00 | |
| | Urban Leisure Ltd | Arwyneb lle chwarae | 4,092.00 | |
| 30.03.19 | S E Davies | Cyflog | 336.36 | AS |

| | |
|---|---|
| Gweddill yn y banc fel yn yr adroddiad banc ar 28 Ionawr 2019 (wedi'i wneud yn gryno) | 26386 |
| Gweddill adroddiad wedi'i gymhwyso (wedi'i wneud yn gryno) | 25903 |
| Gweddill cau yn y llyfr arian (wedi'i wneud yn gryno) | 25902 |

*Cynigiwyd Cyng L Holder, eiliwyd Cyng S Kings, cytunwyd*

*Archwiliad Mewnol*
Nodwyd bod Mrs Jamison wedi bod yn yr ysbyty ac nad oedd wedi ateb hyd yma.

*Gwahoddiad oddi wrth CSC i gyfarfod â Chysylltwyr Cymuned*
Roedd y Cyng Mrs A Edwards wedi dweud y byddai hi'n mynd gyda'r Clerc pe bai'n bosibl trefnu dyddiad addas..
GWEITHREDU: Cysylltu â phawb dan sylw GAN: Y Clerc

Roedd y Clerc i gwrdd â chyrychiolydd Came a'r Cwmni, broceriaid yswiriant dros y sector, i drafod dyfynbrisiau ar gyfer adnewyddu yswiriant Mehefin.

**10. Priffyrdd a Hawliau Tramwy Cyhoeddus**

*Bwrdd y tu allan i Seven Stars*
Cytunodd y Cyng K Symmons i fynd ar ôl hyn.

*Llwybrau troed*
CSC Cynllun Gwella Llwybrau Cyhoeddus (ROWIP)
Nodwyd, er y byddai'r Cyngor Sir efallai'n dymuno annog Cynghorau Tref a Chymuned i fod yn gyfrifol am ProW, ni allai eu gorfodi i fod yn gyfrifol am gynnal a chadw.
Byddai'r swyddog Mynediad Cymunedol yn archwilio dau safle lle nad oedd PRoW yn glir.

*Ymholiad am ffyrdd yn cael eu cynnal ar Draul y Cyhoedd*
Cytunwyd y byddai'r CC yn gofyn am gael gweld y wybodaeth a oedd gan y Cyngor Sir.
GWEITHREDU: Cysylltu â CSC GAN: Y Clerc

Roedd y sbwriel a oedd wedi ei adael ar y tir heb berchennog ar y ffordd y tu ôl i'r Seven Stars wedi ei losgi. Cytunwyd pe bae rhagor o sbwriel yn ymddangos ar y safle y byddai'r Cynghorwyr yn rhoi gwybod i'r Clerc.

*Cyflymdra wrth groesffordd Croes-y-Llan*
Byddai'r heddlu'n dod yn ôl â'r wybodaeth y gofynnwyd amdani.

**11. Amwynderau**
Cytunwyd y gysylltu â'r Cyngor Suir i fynegi pryder fod yn cyhoedd yn defnyddio biniau sbwriel cyhoeddus ar gyfer gwastraff tai mewn bagiau duon. Byddid yn holi hefyd a allai biniau olwyn gael eu darparu i drigolion pan fyddai casglu bagiau gwastraff duon bob 3 wythnos yn dechrau.
GWEITHREDU: Cysylltu â CSC GAN: Y Clerc

Er bod y pryder wedi'I nodi am sbwriel yn tarddu oherwydd busnesau lleol, cytunwyd I beidio â mynd â'r mater yn ei flaen ar hyn o bryd.

*Arwynebedd newydd*
Byddai Urban Leisure Cyf yn dod i dwtio'r ymylon pren sydd ar ôl.

*Gosod biniau newydd*
Cytunwyd i ymweld â'r safle ddydd Gwener 8 Mawrth am 6.15pm i benderfynu ble y dylid gosod y bin newydd. Nodwyd mai'r rheswm gwreiddiol dros brynu bin newydd oedd darparu bin gyda chlawr addas i atal bagiau duon ar gyfer sbwriel tai rhag cael eu rhoi ym miniau'r CC.

*Banciau poteli* – nid oedd ymateb hyd yma a fyddai'r banciau poteli'n parhau ar ôl dechrau casglu gwydr wrth ymyl y palmant.

Roedd y Cyng S Kings wedi gosod arwyddion i fyny am 'dim baw cŵn' ac wedi darganfod bod y rhain wedi cael effaith gadarnhaol. Nodwyd awgrym y CS Clive Davies y gallai'r ysgol ddylunio arwyddion parhaol.

*Prosiectau*
Roedd y Clerc wedi cael gwybod y gallai rhagor o arian grant dod ar gael ar gyfer y lle chwarae, i'w wario erbyn 31.3.19. Roedd hi a'r Cyng S Kings wedi costio meinciau newydd. Cytunwyd, pe byddai prosiect yn gymwys, y byddai'r Clerc yn mynd ymlaen â'r cais am grant cyn gynted â phosibl ac yn archebu meinciau i gynnwys mainc bicnic gyfleus i gadair olwyn a seddi i blant.
GWEITHREDU: Mynd ar ôl hyn GAN: Y Clerc

Nodwyd bod angen mainc newydd ym mynwent yr eglwys. Byddid yn edrych ar hyn yn y flwyddyn ariannol 19/20.

**12. Prosiectau'n parhau**
Byddid yn trefnu Gwasanaeth y Cofio ar agenda mis Ebrill.
GWEITHREDU: Eitem agenda Ebrill GAN: Y Clerc

**13. Digwyddiadau**
*Cinio'r Cadeirydd*
Byddid yn gofyn i'r Cadeirydd anfon y wybodaeth o amgylch.

**14. Adroddiadau cyfarfodydd**
*Gwytnwch cymunedau / Cyfarod cynllunio brys*
Dywedodd y Cyng S Kings ei bod wedi dod yn amlwg fod angen bod yn ofalus iawn i sicrhau bod unrhyw gymorth sy'n cael ei addo gan y gymuned yn gallu cyrraedd. Roedd yn edrych ar gynlluniau argyfwng wedi eu cynhyrchu gan gymunedau eraill tra byddai'r Cyngr Mrs A Edwards a Mrs N Redmond yn edrych ar gynnig y neuadd fel lle diogel yn ystod argyfwng.
GWEITHREDU: Dilyn hyn GAN: Aelodau'r grŵp

**15. Gohebiaeth / + gohebiaeth e-bost**
*Nodwyd:*
Adnewyddu Manylion Aelodaeth o Un Llais Cymru 2019-20

Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) i gyflwyno Pleidleisiau yn 16 oed

Cyflwyniad gan Swyddfa Archwilio Cymru

DYDDIADAU CYFARFODYDD CYNGOR IECHYD CYMUNED 2019/20 AR GYFER EICH DYDDIADUR

**16. Cyfnewid Gwybodaeth**
Nodwyd nad oedd neb o'r rhai a oedd wedi dioddef yn y llifogydd diweddar wedi gallu dychwelyd i'w tai hyd yma. Cytunodd y Cyng Mrs N Redmond i gysylltu â'r CS Clive Davies i ymchwilio i drefnu digwyddiad i gefnogi'r rheiny a oedd wedi dioddef oherwydd y llifogydd.
GWEITHREDU: Gofyn i'r CS Clive Davies gysylltu â'r Cyng Mrs N Redmond GAN: Y Clerc

**17. Dyddiad y cyfarfod nesaf – 1.04.19 - 7.00pm**

*Gan nad oedd dim busnes pellach i'w drafod daeth y cyfarfod i ben am 8.17pm.*